| Cyfenw | | Rhif y Ganolfan | | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | | | 2 |

# TAG UWCH – NEWYDD

Z22-1570N50-1

1570N50-1

**DYDD MAWRTH, 24 MAI 2022 – PRYNHAWN**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## U2 Uned 5 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion

2 awr a 30 munud

| | I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A** | **1.** | **20** | |
| | **2.** | **20** | |
| **Adran B** | **3.** | **18** | |
| | **4.** | **24** | |
| | **5.** | **18** | |
| | **Cyfanswm** | **100** | |

1570N501 01

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Dylech chi rannu eich amser yn briodol.

100 yw cyfanswm nifer y marciau sydd ar gael.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus a chlir yn eich atebion. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio atalnodi a gramadeg yn gywir, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 5.

JUN221570N50101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Astudiaeth Achos**

Mae Ioan yn 45 oed ac yn byw gyda'i wraig a'u dau o blant ifanc. Mae'n gweithio fel gweithiwr cymdeithasol ac yn ddiweddar, mae wedi helpu ei gymuned leol i sefydlu banc bwyd.

Roedd plentyndod Ioan yn un heriol. Roedd ei fam, Paula, yn alcoholig ac roedd hi'n aml yn yfed gormod i allu darparu bwyd i'r plant. Roedd tad Ioan yn aml yn gweithio oddi cartref am gyfnodau hir ac yn methu cefnogi ei wraig a'i blant. Chwalodd perthynas rhieni Ioan oherwydd yfed ei fam, ac fe wnaeth ei dad adael cartref pan oedd Ioan yn 7 oed.

Roedd gan deulu Paula hanes o ddibyniaeth ar alcohol (*alcohol dependency*); bu farw ei mam a'i mam-gu/nain yn ifanc oherwydd problemau iechyd gafodd eu hachosi gan ddibyniaeth ar alcohol. Pan wnaeth tad Ioan adael, roedd Paula yn cael trafferth ymdopi ar fudd-daliadau, a doedd ganddi hi ddim rhwydwaith cefnogi i'w helpu i fagu ei phlant ifanc. Roedd Paula yn gwthio unrhyw ffrindiau oedd ganddi i ffwrdd. Aeth yr yfed yn waeth, ac roedd hi'n gyndyn (*reluctant*) i ofyn am help a chefnogaeth. Roedd bywyd pob dydd yn anodd i'r teulu, ac fe wnaeth Ioan gymryd y cyfrifoldeb o ofalu am ei frawd bach. Weithiau byddai'n cuddio pwrs arian ei fam, ond byddai hi bob amser yn dod o hyd i ffordd o gael alcohol. Roedd y bechgyn yn aml yn llwglyd (*hungry*) ac roedden nhw'n gorfod chwilio am fwyd yn y biniau y tu ôl i'r archfarchnad leol. Doedd dim banciau bwyd ar gael i helpu.

Symudodd Ioan i hostel pan oedd yn 16 oed ac aeth ei frawd i mewn i ofal maeth (*foster care*). Gweithiodd Ioan yn galed yn y coleg i gael cymwysterau (*qualifications*), ac ymunodd â chlwb ieuenctid lleol. Yno, llwyddodd i wneud ffrindiau a datblygodd ymdeimlad o berthyn (*a sense of belonging*). Penderfynodd Ioan ei fod eisiau dilyn gyrfa lle byddai'n gallu helpu pobl eraill sy'n byw ar eu pen eu hunain ac mewn tlodi, ac aeth ymlaen i astudio gwaith cymdeithasol yn y brifysgol.

Dydy Ioan ddim yn beio ei rieni am eu penderfyniadau; mae'n teimlo eu bod nhw'n ddioddefwyr (*victims*) o'u hamgylchiadau eu hunain. Mae'n dweud nad oedd unrhyw beth wnaeth e i helpu ei fam yn ddigon, a'i bod hi'n dal i yfed pryd bynnag roedd hi'n gallu, hyd nes iddi farw yn 59 oed o fethiant yr afu/iau.

Mae sefydlu'r banc bwyd wedi bod yn ffordd i Ioan helpu pobl sydd angen cefnogaeth. Mae'r banc bwyd yn brysur ac yn ystod gwyliau'r ysgol mae Ioan, ynghyd â grŵp o wirfoddolwyr (*volunteers*), yn dosbarthu pecynnau bwyd i gartrefi plant lleol sydd fel arfer yn cael prydau ysgol am ddim.



© WJEC CBAC Cyf.

(1570N50-1)

## ADRAN A

Atebwch **bob** cwestiwn.

**1.** Darllenwch yr astudiaeth achos ac atebwch y cwestiynau isod.

(a) Amlinellwch **dri** ffactor seicolegol fyddai wedi gallu cael effaith ar Ioan. [6]

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol i Ioan o fod yn wydn (*resilient*). [6]



© WJEC CBAC Cyf.

(c) Gan ddefnyddio damcaniaeth cyflyru Skinner (*Skinner's theory of conditioning*), esboniwch pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol. [8]





© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**2.** Roedd gan Paula, mam Ioan, hanes teuluol o ddibyniaeth ar alcohol.

(a) Dadansoddwch sut mae dulliau cadarnhaol a rhagweithiol (*proactive*) yn gallu cefnogi oedolyn sydd â dibyniaeth ar alcohol. [8]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch ddamcaniaeth fiolegol Eysenck a thrafodwch sut byddai'r ddamcaniaeth hon yn gallu egluro dibyniaeth Paula ar alcohol. [12]

1570N501
07



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN B

Atebwch **bob** cwestiwn.

**3.** Mae Nia yn 23 oed ac mae'n byw ag anabledd dysgu. Mae ganddi swydd ran-amser, mae'n gwirfoddoli mewn siop elusen, ac mae'n byw yn ei fflat ei hun. Mae hi'n cael awr o gefnogaeth yn y bore, ac eto gyda'r nos. Nod y gefnogaeth weithredol (*active support*) yma yw helpu Nia i ddatblygu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen arni i fyw bywyd cwbl annibynnol. Yn ddiweddar, mae staff cefnogi wedi sylwi bod Nia yn cael trafferth ymdopi, a'i bod hi wedi dechrau casglu (*hoarding*) sbwriel a sbarion bwyd (*food leftovers*). Mae cyfarfod wedi'i drefnu â Nia i drafod y ffordd orau o wella'r sefyllfa.

(a) Disgrifiwch beth yw ystyr Cefnogaeth Weithredol. [4]

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

(1570N50-1)

Arholwr yn unig

(b) Esboniwch ffactorau fyddai wedi gallu cael effaith ar ymddygiad Nia yn ddiweddar. [6]

Arholwr yn unig

(c) Archwiliwch sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi (*enable*) unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol. [8]

Arholwr yn unig

**4.** Mae Josef yn 84 oed. Mae'n colli ei gof (*has memory loss*), ac mae'n mynychu grŵp hel atgofion (math o therapi siarad). Mae'n hapus ac yn gadarnhaol am ei fywyd. Mae Josef yn aml yn sôn am sut roedd pawb, yn y gorffennol, yn cefnogi ei gilydd yn ystod y cyfnodau anodd. Er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu gofalu am anghenion Josef a'i chwaer, roedd rhieni Josef yn mynd heb (*went without*). Yn ôl Josef, mae e bob amser wedi bod â digon o arian i ymdopi. Bu farw gwraig Josef ddwy flynedd yn ôl, ond mae'n teimlo'n lwcus ei fod wedi cael priodas hyfryd a theulu cariadus. Mae'n cael trafferth deall pam mae pobl yn cwyno am bethau; mae'n dweud mai 'chi sy'n gyfrifol am eich bywyd (*life is what you make it*)'.

(a) Amlinellwch **ddau** ffactor cymdeithasegol fyddai wedi gallu dylanwadu ar agwedd Josef tuag at fywyd. [4]

........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................

(b) Esboniwch, gan ddefnyddio damcaniaeth wybyddol, pam mae Josef yn meddwl yn gadarnhaol am ei fywyd. [6]

........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................
........................................................................................................................................................


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Disgrifiwch sut mae therapi siarad yn gallu cefnogi oedolion sy'n colli eu cof. [6]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(ch) Trafodwch sut byddai cyfnod datblygiad Josef yn gallu dylanwadu ar ei ymddygiad. [8]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**5.** Mae model *Skilled Helper* Egan yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan gwnselwyr er mwyn helpu pobl i ddelio â materion sydd o bosibl yn effeithio ar eu hymddygiad.

Disgrifiwch y 3 cam ym model *Skilled Helper* Egan ac aseswch sut mae'r model hwn yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog. [18]


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**


© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.